**Cyfeillion Glan Ceubal (C.Rh.A)**

Wedi ei sefydlu ers 2013, mae CGC yn rhan bwysig o gymuned yr ysgol. Mae croeso i unrhyw riant neu aelod o'n cymuned i ymuno.

Rydym yn trefnu:

- Digwyddiadau cymdeithasol i rieni e.e. nosweithiau ceilys
- Digwyddiadau cymdeithasol i'r plant e.e disgo ysgol
- Gweithgareddau i godi arian
- Ffeiriau Nadolig a Haf

**Codi arian**

Trwy ymdrechion rhieni, staff a rhoddion hael, ers 2013 rydym wedi codi dros £5000. Mae hyn wedi cyfrannu tuag at:

- Y wefan hon
- Matiau gymnasteg
- Cyfrannu at gostau gwibdeithiau ysgol
- Offer cerddorol
- Adnoddau awyr agored
- Adnoddau i gyfoethogi addysg ein plant

**Sut allwch chi helpu?**

Gallwch roi ... eich amser, rhoddion, eitemau i'w gwerthu, gwobrau raffl, a rhannu eich gwybodaeth a'ch sgiliau. Mae'r pwyllgor yn cwrdd o leiaf unwaith y tymor, fel arfer yng nghlwb Rygbi Ystum Taf ar Ffordd Radyr. Mae dyddiadau ac amseroedd ein cyfarfodydd yn cael eu hysbysebu yn ein cylchlythyron, tudalen Facebook a Trydar.

Rydym yn awyddus i feithrin cysylltiadau gyda busnesau lleol bydd o bosib yn gallu cefnogi ein digwyddiadau a gweithgareddau codi arian. Mae nifer o siopau lleol yn garedig iawn yn darparu rhoddion ar gyfer gwobrau raffl ac mae rhai wedi cefnogi ein ffeiriau Nadolig a Haf.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD...**

... bod modd codi arian i Ysgol Gymraeg Glan Ceubal bob tro yr ydych yn siopa ar lein trwy EasyFundraising.org.uk. Cliciwch yma i greu cyfrif er mwyn cefnogi ni yn y ffordd syml a di-drafferth yma.

Os hoffech wybod mwy, siaradwch gyda aelod o'r pwyllgor, ebostiwch ni, cwblhewch holiadur, cysylltwch â ni ar dudalen Facebook Glan Ceubal neu Trydar @CyfGlanCeubal.